# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Mai 2019

Amser: 10.05 - 12.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5497

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Stuart Pearson, Capital Law<br>Gwyn Llewelyn, KPMG |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Ryan Bishop (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar ddiwygiadau.

## 2 Ymchwiliad i ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol: Ystyried yr ohebiaeth a ddaeth i law

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a chan y cyrff a ariennir yn uniongyrchol a chytunodd ar y newidiadau a gynigiwyd.

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019-20

3.1 Trafododd y Pwyllgor y cais gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cyllideb atodol cyntaf a'i nodi.

## 4 Cyllideb Atodol Gyntaf Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2019-20

4.1 Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch cyllideb atodol cyntaf a'u nodi.

4.2 Nododd y Pwyllgor fod cyllideb atodol Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys dull cyfrifyddu diwygiedig, a chytunodd i holi'r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd ymhellach pan ddaw gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20

5.1 Trafododd y Pwyllgor y cais gan Gomisiwn y Cynulliad ynghylch cyllideb atodol cyntaf a'i nodi.

## 6 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

6.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

6.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC.

## 7 Papur(au) i'w nodi

7.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai.

## 8 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 4

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gwyn Llewelyn, Cyfarwyddwr, Infrastructure Advisory, KPMG LLP a chan Stuart Pearson, Uwch Swyddog Cyswllt - Adeiladu, Ynni a Phrosiectau, Capital Law ar ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, y cyfarfod ar 23 Mai 2019, ac ar ddechrau'r cyfarfod ar 5 Mehefin 2019.

9.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: trafod y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.